## ASTUDIAETH ACHOS 1 – Llyr

*Mae Llyr yn dad ifanc i ddau sydd â diabetes math un (gallai fod yn unrhyw gyflwr). Mae'n gyndyn o gael y brechiad rhag y ffliw.*

**MEDDYG**: A fyddai ots gennych pe bawn yn codi un mater olaf heddiw? Mae'n rhywbeth rydyn ni wedi sôn amdano yn y gorffennol ac mae'n ymwneud â'r posibilrwydd eich bod chi'n cael y brechiad rhag y ffliw heddiw.

**LLYR**: Wel, iawn….

**MEDDYG:** Rwy'n gwybod yn y gorffennol ei fod yn rhywbeth yr ydych wedi ei wrthod.

**LLYR**: Ie….

**MEDDYG**: Beth yw eich barn am gael y brechiad eleni?

**LLYR**: Dydw i ddim yn gwybod, ychydig flynyddoedd yn ôl cafodd ffrind i mi y pigiad a chafodd adwaith gwirioneddol wael iddi. Wedyn, dywedodd wrthyf, oherwydd bod gennym ni'r ddau ddiabetes, yna dwi'n siwr o gael yr un math o adwaith. Mae'r math hwnnw o ofn arna i ... fe'm gwnaeth yn gyndyn.

**MEDDYG**: Wel mae hynny'n fwy na dim ond amharodrwydd, mae hynny'n frawychus i chi hyd yn oed feddwl am y brechiad yn iawn?

**LLYR**: Ie, ie rwyt ti'n iawn. Mae'n haws peidio â'i gael. Dydw i ddim eisiau i'm plant fy ngweld yn sâl yn y ffordd yr oedd fy ffrind.

**MEDDYG**: A dw i wir ddim eisiau i ti fod yn ofnus. Mae'n amlwg bod eich ffrind wedi cael profiad brawychus iawn. Ar y llaw arall Mae yna ystyriaeth eich bod chi'n gofalu am eich plant ac nad ydych chi eisiau mynd yn sâl fel na allwch chi ofalu amdanyn nhw.

**LLYR**: Wel wrth gwrs, dydw i ddim eisiau bod yn rhy sâl i ofalu amdanyn nhw a dydw i ddim eisiau i fy mhlant fynd yn sâl. Ond dydw i ddim yn gwybod, dwi'n amlwg yn ofnus amdano.

**MEDDYG**: Mae'n swnio fel eich bod chi'n llawer mwy agored i ystyried cael y brechiad petaech chi'n poeni llai am gael adwaith difrifol fel cafodd eich ffrind?

**LLYR**: Yn bendant.

**MEDDYG:** Felly a fyddai ots gennych pe baem yn siarad am y math hwnnw o ymateb a'r hyn sy'n gysylltiedig**?**

**LLYR:** Dim problem.

**MEDDYG**: Ydy'ch ffrind wedi cael adwaith i bethau eraill fel y gwnaeth hi i'r brechiad?

**LLYR**: Ydy… eitha dipyn o bethau a dweud y gwir.

**MEDDYG:** A beth amdanoch chi?

**LLYR**:  Na, na, dwi'n lwcus fel 'na.

**MEDDYG**:  Lwcus, mae hynny'n dda. Ac nid ydych erioed wedi cael adwaith mor ddifrifol â'i un hi?

**LLYR**: Naddo.

**MEDDYG**:  Iawn mae hynny'n dda. A fyddai ots gyda chi pe bawn i'n rhannu rhywfaint o wybodaeth am y risg? Byddech yn cael y brechiad ac yn aros gyda ni am gyfnod o amser a fyddai'n caniatau i unrhyw ymateb ddigwydd pe byddai'n mynd i wneud. Byddech yma gyda ni a hyd yn oed pe baech wedi cael adwaith byddech yn ddiogel. Mae'r siawns o ymateb yn fach iawn ond byddem yn sicrhau eich bod yn aros gyda ni am ddeg munud i wneud yn siŵr eich bod yn iawn. Beth y’ch chi’n teimlo am hynny?

**LLYR:**  O... O wela i. Efallai fy mod yn fodlon, mae'n debyg.

**MEDDYG:** Iawn - mae'n swnio fel y gallech fod yn agored i'r syniad o gael y brechiad, cael yr imiwnedd hwnnw heb adwaith a pheidio â'i drosglwyddo i'ch plant?

**LLYR**: Dydw i ddim eisiau ei basio ymlaen, mae stwff yn cael ei drosglwyddo i blant drwy'r amser.

**MEDDYG**: Ydy mae, onid yw e? Pryd fyddech chi'n rhydd? A fyddech yn rhydd yn awr i gael y brechiad ac aros am ddeng munud tra byddwn yn gwirio nad ydych yn cael yr adwaith hwnnw?

**LLYR**:  Iawn. Dwi yma nawr, cystal gwneud e..

**MEDDYG**: Wel dyna wych. Da iawn. Gadewch i ni wneud hyn a gwneud yn siŵr eich bod chi a'ch plant yn cael eich diogelu.